**Claire Homard**
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

I rieni pob disgybl ym mlwyddyn 6

Date/Dyddiad Medi 2025
Ask for/Gofynner am Derbyniadau i'r ysgol uwchradd
Email / Ebost admissions@flintshire.gov.uk

Annywl Riant

**Derbyniad i Ysgol Uwchradd - Medi 2026**

Bydd eich plentyn yn cychwyn Ysgol uwchradd ym mis Medi 2026. Yn awr mae gennych y cyfle i fynegi ffafriaeth ar gyfer eich ysgol o ddewis. O 1 Medi 2025, ymgeisiwch ar-lein www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Admissions/Secondary.aspx

I'ch helpu â'ch penderfyniad bydd pob ysgol yn cynhyrchu prosbectws sy'n rhoi manylion llawn am yr ysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu 'Canllaw i Wasanaethau Addysg 2026' yn nodi'r weithdrefn dderbyn. 'Mae'r Canllaw i Wasanaethau Addysg 2026' a rhestr o'r holl ysgolion ar gael, ar gael ar ein gwefan - www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Admissions/School-Admissions.aspx

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y 'Canllaw i Wasanaethau Addysg 2026' cyn llenwi'ch ffurflen dewis fel eich bod yn ymwybodol o'r meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a pholisi cludiant Sir y Fflint.

Gweler yr amserlen ar gyfer derbyniadau i ysgolion uwchardd isod:-

| Ffurflenni derbyniadau ar gael i rhieni | Cyfnod ystyriaeth i rieni | **Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni** | Cyfnod dyrannu lleoedd | Hysbysir rhieni erbyn: |
|---|---|---|---|---|
| 01/09/2025 | 01/09/25 – 03/11/25 | **03/11/25** | 04/11/25 – 05/01/26 | 02/03/26 |

**Rhaid i bob cais ddod i law erbyn y dyddiad cau**.
Bydd ceisiadau hwyr yn cael sylw ar ôl y rhai a dderbynnir mewn pryd, felly mae'n bwysig eich bod yn anfon eich ceisiadau erbyn y dyddiad cau. Er bod modd cyflwyno cais ar-lein ar ôl y dyddiad cau, os ydych chi'n gwneud cais ar ôl diwedd y cyfnod dyrannu (5 Ionawr 2026) ni fydd eich cais yn cael ei brosesu tan ar ôl y dyddiad cynnig cenedlaethol (2 Mawrth 2026).

Cludiant ar gyfer ysgolion ~ Gwybodaeth Bywsig

- *Byddwch angen ystyried sut y bydd eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol wrth wneud eich dewis. Mae cludiant am ddim i'r ysgol fel arfer yn cael ei ddarparu i'r ysgol uwchradd agosaf os yw'n fwy na 3 milltir o'r cyfeiriad cartref (gweler y "Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol" am fanylion llawn).*

Ty Dewi Sant, St David's Park, Ewloe , Flintshire CH5 3FF
www.flintshire.gov.uk
Ty Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

- *Mae gan rieni hawl i fynegi dymuniad i'w plentyn fynd i unrhyw ysgol. Os bydd y cais yn cael ei dderbyn, bydd y rhiant yn colli eu hawl i ymgeisio am gludiant am ddim os nad hon yw'r ysgol addas agosaf, oni bai eu bod yn diwallu unrhyw feini prawf arall a fanylir yn y polisi cludiant.*

- *Pan fo disgybl yn mynychu ysgol sy'n wahanol i'r ysgol addas agosaf sydd wedi ei gydnabod gan Gyngor Sir y Fflint, a hynny o ganlyniad i ddewis y rhieni, dylid deall mai'r rhieni sydd i dderbyn cyfrifoldeb llawn am gostau a threfniadau cludiant.*

- *Cynghorir rhieni i beidio â seilio eu dewis ar argaeledd llwybr cludiant cyhoeddus, gan na ellir sicrhau'r gwasanaeth na lleoedd ac mae'n bosib nad yw o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol.*

- *Os ydych chi'n ansicr ynghylch pa ysgol sydd agosaf atoch chi, cysylltwch â admissions@flintshire.gov.uk neu school.transport@flintshire.gov.uk am ragor o wybodaeth am eich cymhwysedd ar gyfer cludiant am ddim.*

Yn gywir,

**James Crompton – Derbyniadau Uwchradd**